## 7.30 pm
## THE MANCHESTER ENSEMBLE

**Sarah Brandwood Spencer – Violin**
**Catherine Yates – Violin**
**Thomas Beer – Viola**
**Raymond Lester – Viola**
**Simon Turner – Cello**
**Damion Browne – Cello**
**Ben Powell – Piano**



This versatile and highly talented ensemble presents an evening showcasing some of the highlights of the chamber music repertoire. Richard Strauss's Sextet from the opera Capriccio, with its opulent harmonic palette and rich instrumental textures, will open the concert. This will be followed by Schubert's large scale Piano Trio No. 1 in Bb major, Op. 99, which was completed in 1828, in the last year of his life. The evening will culminate in a performance of Brahms' String Sextet No.2 in G major, Opus 36, a work noted for the exotic sounding opening of the first movement, by innovative chord structures and by its use of technical and melodic experimentation.

Mae'r ensemble amryddawn a thalentog yma yn cyflwyno noson i arddangos rhai o uchafbwyntiau'r repertoire cerddoriaeth siambr. Agorir y cyngerdd gan berfformiad o'r Chwechawd o'r opera Capriccio gan Strauss, gyda'i harmoni a'i gweadau offerynnol cyfoethog. Wedyn cawn glywed y Triawd Piano Rhif 1 yn Bb fwyaf, Op.99 gan Schubert, gwaith enfawr a orffennwyd ym 1828, yn ystod blwyddyn olaf ei fywyd. Daw'r noson i ben gyda pherfformiad o'r Chwechawd Llinynnol Rhif 2 yn G fwyaf, Op. 36 gan Brahms. Mae'r gwaith hwn yn nodedig am yr agoriad egsotig i'r symudiad cyntaf ac am ei ddefnydd o arbrofi yn y melodi.

**Sponsored by Keith Thorp in memory of Linda Thorp and by Geoscience-Wales (www.geoscience-wales.co.uk).**

## Friday, July 26
## Dydd Gwener, Gorffennaf 26
## 1 pm
## CHARLOTTE FORFAR – Soprano
## CAI FÔN DAVIES – Tenor
## CALEB RHYS JONES – Bass
## CATHERINE BARNETT – Piano



A concert showcasing some of the best up-and-coming vocalists to emerge from North Wales. Charlotte Forfar and Caleb Rhys Jones are about to commence postgraduate vocal studies at prestigious music colleges, whilst Cai Fôn Davies has achieved great success at the Urdd and National Eisteddfodau and is studying music at Bangor. With experienced and accomplished accompanist Catherine Barnett at the piano, they present a varied programme ranging from arias to songs from the shows.

Cyngerdd i ardangos rhai o'r talentau lleisiol ieuanc mwyaf disglair i ddod o'r ardal. Mae Charlotte Forfar a Caleb Rhys Jones ar fin cychwyn ar gwrs meistr lleisiol mewn colegau cerdd enwog, tra bod Cai Fôn Davies wedi cael llwyddiant mawr yn Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol ac yn astudio cerdd ym Mangor. Gyda'r gyfeilyddes brofiadol a thalentog Catherine Barnett wrth y piano, byddant yn cyflwyno rhaglen amrywiol o arïau, caneuon celf a chaneuon sioe gerdd.

**Noddwyd gan Violet Jones er côf am ei rhieni, Mary E. G. Jones (1910 – 2000) a W. H. Jones (1905 – 1945).**

## 7.30 pm
## EMMA WALSHE – Soprano
## GWENDOLEN MARTIN – Soprano
## CHRISTOPHER WEBB – Bass
## TOBY CARR – Lute and Theorbo

**'Seven Tears' – Lute songs of melancholy and joy by Dowland, Purcell and friends.**



A rare opportunity to hear a concert of exquisite lute songs by Dowland, Purcell, Campion and others performed as solos, duets and trios. Emma Walshe and Gwendolen Martin have appeared here on many occasions as members of the Marian Consort. They are joined in concert by Chis Webb, who has a similar background in top choirs such as the Monteverdi Choir and London Voices, and by lutenist, Toby Carr, who has worked with major orchestras and opera festivals as well as being very active in early music groups with performers such as Dame Emma Kirkby.

Cyfle prin i glywed cyngerdd o ganeuon liwt hyfryd gan Dowland, Purcell, Campion ac eraill yn cael eu perfformio fel unawdau, deuawdau a thriawdau. Mae Emma Walshe a Gwendolen Martin wedi ymddangos yma lawer gwaith fel aelodau o'r Marian Consort. Yn ymuno â nhw mewn cyngerdd fydd Chris Webb, sydd â chefndir tebyg mewn corau enwog megis y Monteverdi Choir a London Voices, a chan y liwtydd Toby Carr, sydd wedi gweithio gyda cherddorfeydd pwysig a gwyliau opera, yn ogystal â bod yn flaenllaw mewn grwpiau cerddoriaeth gynnar gyda pherfformwyr megis Dame Emma Kirkby,

**Sponsored by Hilary Blumer and by Wyn and Catrin Hobson.**

## Saturday, July 27
## Dydd Sadwrn, Gorffennaf 27
## 9.45 am at St. Mary's Church Hall, Rosehill Street.
## CHORAL WORKSHOP
### WITH GWENDOLEN MARTIN AND TOBY CARR

Gwendolen Martin, who has been involved in leading previous festival workshops, teams up this year with lutenist Toby Carr to lead a workshop exploring a number of four part lute songs by Dowland and Campion. Morning and afternoon sessions will culminate in a performance of the works studied, with lute accompaniment, in church at 3.30 pm. £20 per person/ £10 for students. Booking forms, which need to be returned by July 10th , may be obtained from Carolyn Sherlock – phone 01492 573208 or email carolyn.sherlock2@btinternet.com

Mae Gwendolen Martin, sydd eisoes wedi arwain gweithdai yn yr ŵyl, yn ymuno eleni gyda'r liwtydd Toby Carr i arwain gweithdy corawl wedi ei seilio ar nifer o ranganeuon mewn pedwar llais gan Dowland a Campion. Penllanw'r gweithdy fydd perfformiad yn yr eglwys o'r gweithiau a astudiwyd am 3.30 yh. Côst £20/£10 i fyfyrwyr. Ceir ffurflenni cofrestru, fydd angen eu dychwelyd erbyn Gorffennaf 10fed, gan Carolyn Sherlock – rhif ffôn 01492 573208 neu ebost carolyn.sherlock2@btinternet.com

## 1 pm
## ELLIS THOMAS – Piano



Eighteen year old Ellis Thomas lives in Llandudno and for the past six years has studied piano at the Junior Royal Northern College of Music with Manola Hatfield. He has performed concerti with a number of orchestras, has received numerous awards at college and has been successful in many prestigious competitions, most recently in the Gregynog Young Musician Competition, against impressive opposition. He has received a conditional offer to study music at Cambridge and hopes to pursue a career as a pianist. His programme will include works by Brahms, Debussy and Liszt and will culminate in a performance of Rachmaninoff's Piano Sonata No. 2 in Bb minor, Op. 36.

Mae Ellis Thomas  yn ddeunaw oed ac yn hannu o Landudno. Am y chwe mlynedd ddiwethaf mae o wedi astudio'r piano ym Manceinion gyda Manola Hatfield. Mae wedi perfformio'r rhan unawdol mewn concerti gyda sawl cerddorfa, wedi derbyn llawer o wobrau yn y coleg cerdd, ac wedi bod yn llwydiannus mewn llawer o gystadleuthau pwysig yn erbyn chwaraewyr profiadol iawn. Mae wedi derbyn cynnig amodol i astudio cerddoriaeth yng Nghaergrawnt, ac yn gobeithio dilyn gyrfa fel pianydd. Bydd ei raglen yn cynnwys gweithiau gan Brahms, Debussy, Liszt a Rachmaninoff.

**Sponsored by Gamlins, Solicitors, and by Conwy Strollers, Castle Street.**

## 7.30 pm
## CÔR MEIBION BRO ALED

**Angharad Ellis – Conductor**
**Ann Edwards – Accompanist**
**CÔR CANTILENA**
**Angharad Ellis – Conductor**
**Chris Roberts – Accompanist**
**MICHAELA PARRY – Mezzo Soprano**
**EMYR LLOYD JONES – Baritone**
**DAFYDD HUW - Harp**
**CATHERINE BARNETT – Piano**





To bring the festival to a rousing conclusion, the Bro Aled Male Voice Choir from Llansannan and Côr Cantilena from Llanrwst, both under the direction of talented conductor Angharad Ellis, will present a wide-ranging and popular programme of choral pieces. Joining them in an evening of pure Welsh entertainment will be two of the country's most promising singers, Michaela Parry and Emyr Lloyd Jones, harpist Dafydd Huw, and talented accompanist Catherine Barnett. Any profit from this concert will go to The Stroke Association.

Côr Meibion Bro Aled o ardal Llansannan a Chôr Cantilena o Lanrwst, y ddau o dan arweiniad y dalentog Angharad Ellis, eleni fydd yn cloi'r wŷl yn eu ffordd ddihafal eu hunain. Yn cadw cwmni iddynt fydd y cantorion Michaela Parry ac Emyr Lloyd Jones, y telynor Dafydd Huw, a'r gyfeilyddes dalentog, Catherine Barnett.  Dewch yn llu i fwynhau noson o adloniant gwirioneddol Gymreig! Bydd unrhyw elw o'r cyngerdd hwn yn mynd tuag at Y Stroke Association.

**Sponsored by Drew Pritchard Antiques, and by Conwy Town Council.**

**We gratefully acknowledge the generous support of our sponsors.**

**Cydnabyddwn yn ddiolchgar gefnogaeth hael ein noddwyr.**

## St. Mary's Church

St. Mary's Church is situated at the centre of the walled town of Conwy. It was founded as a Cistercian monastery in 1186 and for a hundred years was the burial place of the Princes of Gwynedd. Since 1283, when Edward I began work on Conwy Castle, it has been the Parish Church. It contains many features of interest including a Tudor font and a magnificent rood screen of c. 1500. For details of services and events at the Church and in the Bro Celynnin Ministry Area, visit www.caruconwy.com.

The other festival venue, St. Mary's Church Hall , is a few minutes' walk from the Church. Signposted parking is available at various points in the vicinity, and the town is also served by a good local bus service and a railway station on the Chester to Holyhead line. We extend a warm invitation to you to join us at the festival and experience the delights of wonderful music performed in beautiful surroundings.

## Eglwys y Santes Fair

Saif Eglwys y Santes Fair yng nghanol tref gaerog Conwy. Sefydlwyd hi fel mynachdy Sistersiaidd ym 1186 ac am gan mlynedd dyma fan claddu Tywysogion Gwynedd. Ers 1283, pan gychwynodd Edward I waith ar Gastell Conwy, gwasanaethodd fel Eglwys y Plwyf. Gwelir llawer o nodweddion diddorol ynddi, yn cynnwys bedyddfaen o gyfnod y Tuduriaid a sgrîn ysblennydd a godwyd tua 1500. Am wybodaeth ynglyn â gwasanaethau a digwyddiadau yn yr Eglwys ac yn Ardal Weinidogaeth Bro Celynnin, ymwelwch â www.caruconwy.com.

Mae'r  safle arall a ddefnyddir yn ystod yr ŵyl, sef Neuadd Eglwys y Santes Fair  heb fod nepell o'r Eglwys ei hun. Mae sawl maes parcio o gwmpas canol y dref, a gwasanaethir y dref hefyd gan wasanaeth bysiau lleol da a gorsaf rheilffordd ar y lein rhwng Caer a Chaergybi. Estynnwn wahoddiad cynnes i chi i ymuno â ni yn yr ŵyl i brofi cerddoriaeth o'r safon uchaf mewn awyrgylch brydferth.

**There are no set admission charges to festival concerts.** Audiences are invited to contribute to a collection at the end of each performance towards the very considerable costs involved in running the festival. Any profit accruing is carried forward to ensure that the festival continues to flourish in the years ahead.

**Ni chodir tâl mynediad i gyngherddau'r ŵyl**. Gwahoddir cyfraniadau gan y gynulleidfa ar ôl pob perfformiad tuag at y costau sylweddol o redeg yr ŵyl. Trosglwyddir unrhyw elw a wneir i gronfa arbennig i sicrhau llwyddiant yr ŵyl yn y dyfodol.

During festival week, the Castell Recorder Consort will perform on High Street between 2.15 and 4pm in aid of The Stroke Association.
Yn ystod yr wythnos, bydd Consort Recorder y Castell yn perfformio ar y Stryd Fawr er bydd Y Stroke Association.

St. Mary's Church has disabled access, via the west doors, and is fitted with a hearing loop. Toilet facilities are available at the Church Hall during the interval at evening concerts.
Ceir mynedfa i'r anabl yn Eglwys y Santes Fair drwy ddrysau'r gorllewin, a cheir yn ogystal system clywed 'loop'. Bydd toiledau ar gael yn Neuadd yr Eglwys yn ystod yr egwyl yn y cyngherddau fin nos.

'For further information contact/ Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Chris Roberts – **01492 592166 / 07706972656 / ChrisRobz03@aol.com**

**www.conwyclassicalmusic.co.uk**

# GŴYL GERDDORIAETH GLASUROL CONWY
# CLASSICAL MUSIC FESTIVAL
# 2019

EGLWYS Y SANTES FAIR/ST. MARY'S CHURCH, CONWY

JULY • GORFFENNAF 20 – 27



**Saturday, July 20**
**Dydd Sadwrn, Gorffennaf 20**
**7.30 pm**

## CONWY TOWN ORCHESTRA

**Rosie Hearn – Conductor**
**Miles Nipper - Bassoon**



This year, the festival will be opened by Conwy's very own community orchestra. The orchestra was founded eight years ago and, under the baton of Rosie Hearn, has developed into a versatile ensemble of forty-five talented amateur and semi-professional players. The evening will commence with Brahms' sparkling Academic Overture, followed by Mozart's popular Bassoon Concerto in Bb major, K.191. Dvorak's wonderful and uplifting New World Symphony will bring the concert to a rousing conclusion.

Eleni, agorir yr ŵyl gan Gerddorfa Tref Conwy. Sefydlwyd y Gerddorfa wyth mlynedd yn ôl, ac erbyn hyn, o dan arweiniad Rosie Hearn, mae wedi datblygu i fod yn ensemble hyblyg gyda phedwar deg pump o chwaraewyr amatur a rhannol broffesiynol sy'n teithio o bob rhan o Ogledd Cymru i gymryd rhan. Bydd y noson yn cychwyn gyda'r 'Academic Overture' gan Brahms, gyda'r Concerto yn Bb fwyaf i'r Baswn, K.191, gan Mozart i ddilyn. Daw'r noson i ben yn sain gorfoleddus y 'New World Symphony' gan Dvorak.

**Sponsored by Conwy Town Council.**

---

**Sunday, July 21**
**Dydd Sul, Gorffennaf 21**
**4 pm**

## FESTIVAL EVENSONG

**John Hosking – Conductor**
**Graham Eccles – Organ**



The Church Choir will be joined by Cantamus and singers from other choirs, including Much Wenlock Parish Church Choir, to sing Choral Evensong. Music will include Herbert Brewer's Evening Service in D, Herbert Sumsion's anthem 'They that go down to the sea in ships' and Stanford's Te Deum in Bb. The preacher will be Reverend Tom Saunders.

Bydd Côr yr Eglwys, gyda Cantamus a chantorion o gorau eraill, gan gynnwys Côr Eglwys Plwyf Much Wenlock, yn canu y Gosper ar gân. Ymysg y gerddoriaeth a genir bydd gweithiau gan Herbert Brewer, Herbert Sumsion a Stanford. Traddodir y bregeth gan y Parchedig Tom Saunders.

---

**7.30 pm**

## THE MARIAN CONSORT

**Rory McCleery – Director**
**'Singing in Secret – music from Recusant Renaissance England'**



Festival favourites, The Marian Consort, draw on the rich corpus of music written by William Byrd, England's greatest Renaissance composer for this concert. A devout Catholic, Byrd lived the life of an Elizabethan recusant and in his compositions provided a comprehensive compendium of music for the Catholic mass, which in the early 17th century was still being conducted in clandestine services held in the private houses of the Catholic nobility. More than this, many of Byrd's chosen motet texts, with their themes of desolation and a desire for divine intervention, have been seen to allude to the plight of Catholics in England during his lifetime. Interspersed with Byrd's music are motets by his contemporaries, many of whom shared his recusant sensibilities.

Ar gyfer y cyngerdd yma bydd ffefrynnau'r ŵyl, Y Marian Consort, yn dibynnu ar y talp cyfoethog o gerddoriaeth gan William Byrd, cyfansoddwr gorau cyfnod y Dadeni yn Lloegr. Roedd Byrd yn Babydd pybyr ac yn ymwrthod yn llwyr â'r Eglwys yn Lloegr, ac felly mae ei gyfansoddiadau yn cyfrannu'n helaeth at yr offeren Babyddol a oedd yn dal ei harfer yn y dirgel yn nhai preifat y byddigion yn yr 17eg ganrif. Yn ychwanegol at hyn mae testun geiriau nifer o'r motetau, gyda'u thema o alar a'u hawydd am ymyrraeth ysbrydol, yn awgrymu'n gyfrinachol ffawd y Pabyddion yng nghyfnod Byrd. Yn ogystal â cherddoriaeth Byrd, clywir motetau gan rai o'i gyfoedion gyda'r un tueddiadau am Eglwys Loegr.

**Sponsored by Hilary Blumer and Priscilla Kemp, and by The Castle Hotel, High Street.**

---

**Monday, July 22**
**Dydd Llun, Gorffennaf 22**
**10.30 am**

## CHRISTOPHER SABISKY – Harp and Flute
## CHRISTINA MASON-SCHEUERMANN – Piano



Fifteen year old Christopher Sabisky started playing the flute, shortly followed by the harp, eight years ago. Last year he won both the woodwind and harp sections in his age group at the National Urdd Eisteddfod. Christopher lives in the Conwy Valley and attends Ysgol Dyffryn Conwy. His concert is entitled 'From Baroque to Beatboxing' and will include repertoire from J. S. Bach to Philippe Gaubert, from William Mathias to 21st century flute compositions. His accompanist will be the ultra-talented Conwy based pianist, Christina Mason-Scheuermann.

Dechreuodd Christopher Sabisky(15) chwarae'r ffliwt a'r delyn wyth mlynedd yn ôl. Y llynedd, enillodd y cystadleuthau chwythbren a thelyn yn ei oedran yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae Christopher yn byw yn Nyffyn Conwy ac yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Conwy. Bydd ei raglen yn cynnwys repertoire gan J. S. Bach, Philippe Gaubert, a William Mathias, ac hefyd cyfansoddiadau diweddar iawn ar gyfer y ffliwt. Wrth y piano bydd y bianyddes brofiadol a thalentog, Christina Mason-Scheuermann, sydd yn byw yng Nghonwy.

**Sponsored by Friends of Conwy Jackdaws.**

---

**1 pm**

## SIAN WYN GIBSON – Mezzo Soprano
## HUW LLYWELYN – Tenor
## ANNETTE BRYN PARRI - Piano



Festival favourite, Sian Wyn Gibson, who has been responsible for nurturing so much vocal talent in North Wales, is joined in concert by tenor Huw Llywelyn who has been a member of the chorus of Welsh National Opera, and before that, of Glyndebourne Festival Opera. Providing accompaniment, and contributing a number of solos, will be legend of the piano, Annette Bryn Parri.

Bydd ffefryn yr ŵyl, Sian Wyn Gibson, sydd wedi gwneud cymaint i hyrwyddo talentau lleisiol yng Ngogledd Cymru, yn ymuno mewn cyngerdd gyda Huw Llywelyn, sydd wedi bod yn aelod o Gorws Opera Genedlaethol Cymru, a chyn hynny, o Ŵyl Opera Glyndebourne. Y gyfeilyddes fydd seren y piano, Annette Bryn Parri, a fydd hefyd yn cyfrannu nifer o unawdau at y rhaglen.

**Sponsored by Tony and Margaret Laurence and by Surf Rider, Castle Street.**

---

**8 pm**

## THE FESTIVAL ORCHESTRA

**Paul Barritt – Leader**
**Ben Powell – Piano**
**Tracey Redfern - Trumpet**



Under the direction of Paul Barritt, permanent Guest Leader of the Hallé Orchestra, and previously leader of the Northern Sinfonia and the English Chamber Orchestra, this wholly professional ensemble of players from some of the country's leading orchestras, will present a diverse programme of sparkling festival works. The evening will commence with Vaughan Williams' ever popular Fantasia on Greensleeves, and will be followed by another favourite, George Butterworth's 'The Banks of Green Willow'. Written in 1913, this poignant, lyrical piece has become almost a symbol of that long-lost halcyon Edwardian age, as if Butterworth were transcribing the disappearing world around him. In complete contrast, Shostakovich's exciting Concerto in C minor for Piano, Trumpet and String Orchestra, Op. 35, will follow. The evening will culminate in a performance of the least known of Beethoven's symphonies, the graceful Symphony No. 4 in Bb major, Op.60. Schumann called this work 'a slender Greek maiden between two Norse giants.'

O dan arweiniad Paul Barritt, Blaenwr Gwadd parhaol Cerddorfa'r Hallé a chyn-flaenwr y Northern Sinfonia a'r English Chamber Orchestra, bydd y gerddorfa'n cyflwyno rhaglen o weithiau gwefreiddiol sy'n addas iawn ar gyfer gŵyl gerdd. Bydd y noson yn cychwyn gyda'r 'Fantasia on Greensleeves' boblogaidd gan Vaughan Williams ac yn cael ei dilyn gan ffefryn arall, sef 'On the Banks of Green Willow' gan George Butterworth. Wedyn cawn gyferbyniad llwyr yn y Concerto yn C leiaf ar gyfer Piano, Trwmped a Cherddorfa Linynnol, Op. 35 gan Shostakovich. Daw'r noson i ben yn sain hyfryd y Symffoni Rhif 4 yn Bb fwyaf, Op. 60, gan Beethoven. Galwodd Schumann y symffoni yma yn 'forwyn Roegaidd rhwng dau gawr Norwyaidd.'

**Sponsored by Conwy Town Council and by Dr. Marian Giles Jones.**

---

**Tuesday, July 23**
**Dydd Mawrth, Gorffennaf 23**
**10.30 am at St. Mary's Church Hall, Rosehill Street**

## CHILDREN'S FUN CONCERT by THE THORNE TRIO



A concert for all the family, which should especially appeal to children. There will be an opportunity to get to know the musicians and their instruments, as well as to participate in various musical activities.

Cyngerdd ar gyfer y teulu cyfan, fydd yn apelio'n arbennig i blant. Bydd cyfle i ddod i adnabod y perfformwyr a'u hofferynnau, yn ogystal â chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau cerddorol.

**Sponsored by Conwy Feast.**

---

**1 pm**

## THE THORNE TRIO

**Ilid Llwyd Jones – Oboe**
**Esther Sheridan – Clarinet**
**Alexandra Callanan – Bassoon**

A welcome return visit by this long-established and award winning trio of Royal College of Music graduates with an exciting programme of works by Handel, Mozart, Ibert, Fucik and local composer Dafydd Lloyd Jones.

Braf iawn yw gweld dychweliad y triawd cyffrous yma o raddedigion y Coleg Cerdd Brenhinol gyda rhaglen amrywiol o weithiau gan Handel, Mozart, Ibert, Fucik a'r cyfansoddwr lleol Dafydd Lloyd Jones.

**Sponsored by J. W. Hughes, solicitors, Lancaster Square, and by The Albion Ale House.**

---

**7.30 pm**

## IAN WATSON – Violin
## STEVE SUMMERS – Saxophone
## CHRISTINA MASON-SCHEUERMANN – Piano



South African violinist Ian Watson spent a number of years as Principal First Violin with the Hallé Orchestra, and now enjoys a varied career appearing as a guest principal with many of the country's leading orchestras. Saxophonist Steve Summers is based in Newcastle but has strong links with Conwy. His wide musical interests range from classical to jazz. With Christina Mason-Scheuermann at the piano, our soloists present a programme of musical gems by Kreisler, Tchaikovsky, Bozza, Villa Lobos, Piazzolla and Gershwin.

Mae'r fiolinydd Ian Watson yn hannu o Dde Affrica. Ar ôl nifer o flynyddoedd fel Prif Feiolin Cyntaf Gerddorfa'r Hallé, mae'n gweithio'n llawrydd ac wedi ymddangos fel prif chwaraewr gwadd gyda cherddorfeydd mwyaf blaenllaw'r wlad. Mae'r sacsaffonydd Steve Summers yn byw yn Newcastle ond mae ganddo gysylltiadau cryf gyda Chonwy. Mae ganddo ddiddordebau eang ym myd cerddoriaeth o'r clasurol hyd at jazz. Gyda Christina Mason-Scheurmann wrth y piano, bydd ein hunawdwyr yn cyflwyno rhaglen amrywiol gan Kreisler, Tchaikovsky, Bozza, Villa Lobos, Piazzolla a Gershwin.

**Sponsored by Wyn and Catrin Hobson and by a friend of the festival.**

---

**Wednesday, July 24**
**Dydd Mercher, Gorffennaf 24**
**1 pm**

## THE FITZSIMMON ENSEMBLE

**Sarah Brandwood Spencer – Violin**
**Catherine Yates – Violin**
**Raymond Lester – Viola**
**Simon Turner - Cello**
**Ben Powell – Piano**



This year, this dynamic Manchester-based ensemble brings us Haydn's String Quartet in C major, Op.20, no.2 from the set of six quartets which earned Haydn the soubriquet 'the father of the string quartet', and Dvorak's Piano Quintet No. 2 in A major, Op.81 which is acknowledged as one of the masterpieces of the form, along with those of Schumann, Brahms and Shostakovich.

Eleni, mae'r ensemble deinamig yma o Fanceinion yn cyflwyno dau gyfansoddiad cyferbyniol i ni. Mae'r Pedwarawd llinynnol yn C fwyaf, Op. 20, rhif 2 yn dod o'r gyfres o chwech pedwarawd, a enillodd yr enw 'tad y pedwarawd llinynnol' i Haydn. Mae'r Pumawd Piano rhif 2 yn A fwyaf, Op.81 gan Dvorak yn cael ei gydnabod fel un o gampweithiau'r ffurf cyhyd â'r rhai gan Schumann, Brahms a Shostakovich.

**Sponsored by Applied Petroleum Technology (www.aptec.no).**

---

**3 pm**

## THE INTERNATIONAL VOICE OF THE FUTURE WINNER

**with CATHERINE BARNETT – Piano**

This year, for the first time, we are privileged to welcome the winner of the prestigious Pendine International Voice of the Future Competition at the Llangollen Eisteddfod to perform at our festival. Further details, and information about the winning singer, will be posted on the festival's website and Facebook page once the result is known at the beginning of July.

Eleni, am y tro cyntaf, ein braint ydy croesawu enillydd cystadleuaeth Llais y Dyfodol Rhyngwladol Pendine yn Eisteddfod Llangollen i berfformio yn ein gŵyl. Rhoddir manylion ynglŷn a'r enillydd ar wefan a thudalen Gweplyfr yr ŵyl unwaith fydd y canlyniad yn hybys ar ddechrau mis Gorffennaf.

**Sponsored by Chris Roberts in memory of his parents, Hugh George Roberts (1922 – 1980) and Olwen Roberts (1924 – 2015).**

---

**7.30 pm**

## A NIGHT AT THE OPERA

**Meinir Wyn Roberts – Soprano**
**Erin Gwyn Rossington – Mezzo soprano**
**Huw Ynyr – Tenor**
**John Ieuan Jones – Bass**
**Catherine Barnett – Piano**



Four of Wales' most promising young singers, already with appearances at numerous prestigious venues to their credit, invite you to join them for a night at the opera. With music from Verdi, Mozart and Puccini to Rodgers and Hammerstein, and to the accompaniment of the ultra-talented Catherine Barnett, this promises to be a night to remember!

Gwahoddir chi i ymuno mewn noson opera fendigedig gyda cherddoriaeth o Verdi, Mozart a Puccini i Rodgers a Hammerstein. Mae'r pedwar unawdydd, sydd ymysg cantorion ifanc gorau'r genedl, bellach wedi ymddangos ar nifer fawr o lwyfannau enwog. Gyda'r bianyddes dalentog Catherine Barnett wrth y piano, bydd hon yn sicr yn noson i'w chofio!

**Sponsored by Dr. Marian Giles Jones and by Gorse Hill Caravan Park, Trefriw Road, Conwy.**

---

**Thursday, July 25**
**Dydd Iau, Gorffennaf 25**
**1 pm**

## CHRISTINA MASON-SCHEUERMANN – Piano



Christina Mason-Scheuermann studied at the Royal Academy of Music and then spent many years as pianist with the Cologne Radio Orchestra. She has now come home to her roots in Conwy and is actively involved in the North Wales music scene. Her programme will feature much loved favourites from the piano repertoire by Schubert, Debussy and Rachmaninoff.

Astudiod Christina Mason-Scheuermann yn yr Academi Frenhinol Cerdd cyn treulio sawl blwyddyn fel pianyddes y Cologne Radio Orchestra. Erbyn hyn mae wedi dychwelyd at ei gwreiddiau yng Nghonwy ac yn cymryd rhan flaenllaw ym mywyd cerddorol Gogledd Cymru. Bydd ei rhaglen yn cynnwys ffefrynnau poblogaidd o repertoire y piano gan Schubert, Debussy a Rachmaninoff.

**Sponsored by Daphne Jones in memory of Lem Jones (1926 – 1999).**

---

**3 pm at St. Mary's Church Hall, Rosehill Street**

## THE FESTIVAL LECTURE

**'Music at the National Eisteddfod in Conwy County'**



Trystan Lewis gives us an insight into the role music has played at the National Eisteddfod on its visits to Conwy County over the years, and its contribution to the culture of the Welsh nation.

Mae Trystan Lewis yn rhoi inni gipolwg o'r rôl a chwaraewyd gan gerddoriaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar achlysur ei hymweliadau i Sir Conwy dros y blynyddoedd, a'i chyfraniad tuag at ddiwylliant y genedl.

**Sponsored by The Aberconwy Historical Society.**